Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Cyfres Lles yng Nghymru: Credyd Cynhwysol

Medi 2011

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno un 'credyd' teuluol, sy'n amrywio'n ôl amgylchiadau'r rhai sy'n ei hawlio, sef Credyd Cynhwysol, i ddisodli nifer o fudd-daliadau lles. Nod y Credyd Cynhwysol yw **symleiddio'r system lles, arbed arian a chreu mwy o gymhelliant i weithio.**

## Cipolwg

- **Bydd y Credyd Cynhwysol yn disodli nifer o fudd-daliadau gwaith a chredydau treth gwaith,** gan gynnwys y Cymhorthdal Incwm, y Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, y Budd-dal Tai, y Credyd Treth Plant a'r Credyd Treth Gwaith;
- Bydd **lwfans sylfaenol i oedolion**, **a thaliadau ychwanegol ar gyfer plant, anableddau**, costau **tai** a **gofalu**;
- Caiff y Credyd Cynhwysol ei asesu a'i dalu **fesul aelwyd**;
- I bobl sy'n gweithio, caiff y **Credyd Cynhwysol** ei leihau'n ôl **ar gyfradd unffurf o 65 ceiniog am bob punt o enillion net,** er yn achos rhai grwpiau, bydd rhywfaint o'u henillion yn cael ei ddiystyru cyn dechrau lleihau'r Credyd Cynhwysol;
- Yn achos gweithwyr sy'n cael eu talu drwy'r system Talu wrth Ennill (PAYE), **caiff y taliadau eu cyfrifo a'u haddasu'n awtomatig** drwy ddefnyddio gwybodaeth gan system wybodaeth 'amser real' newydd;
- Bydd pedair lefel o 'amodau i'w bodloni', a fydd yn amrywio o 'amodau llawn' i geiswyr gwaith i 'dim amodau' i'r rhai yn y Grŵp Cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, gofalwyr a rhieni unigol sydd â phlentyn dan flwydd oed;
- Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo **na fydd neb sy'n hawlio budd-dal ar hyn o bryd yn gweld y swm y maent yn ei dderbyn yn gostwng** ar ôl cyflwyno'r Credyd Cynhwysol;[1]
- Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu cynnwys elfennau penodol o'r **Gronfa Gymdeithasol**[2] yn y Credyd Cynhwysol, gan gynnwys Benthyciadau Cyllidebu, Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn a'r Taliad Tywydd Oer;

[1] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2010) SN/SP/5782 Welfare Reform and Universal Credit [fel ar 10/01/11]

- **Yr Adran Gwaith a Phensiynau** fydd yn gweinyddu'r Credyd Cynhwysol, yn wahanol i'r system bresennol lle mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn rheoli credydau treth a'r Adran Gwaith a Phensiynau'n gweinyddu'r rhan fwyaf o'r budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd.

## Budd-daliadau na fyddant yn rhan o'r Credyd Cynhwysol

Dyma'r prif fudd-daliadau na fyddant yn rhan o'r Credyd Cynhwysol:

- **Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Gyfraniadau (JSA)** a **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Gyfraniadau** (**ESA**). Fodd bynnag, bydd y rheolau enillion yn cyd-fynd â rheolau'r Credyd Cynhwysol;[3]
- **Lwfans Gofalwr;**
- **Lwfans Byw i'r Anabl (**DLA);
- **Budd-dal Plant**;
- Bydd **Budd-dal y Dreth Gyngor** yn cael ei bennu'n lleol a bydd gan awdurdodau lleol mwy o ran yn y broses o benderfynu sut y gallant helpu pobl ar incwm isel i dalu'u Treth Gyngor;
- Bydd awdurdodau lleol a gweinyddiaethau datganoledig yn gyfrifol am daliadau dewisol o'r Gronfa Gymdeithasol, fel **Grantiau Gofal Cymunedol** a **Benthyciadau mewn Argyfwng.**[4] Bydd y rheini y gellir eu talu'n awtomataidd yn dod yn rhan o'r Credyd Cynhwyol, fel **Benthyciadau Cyllidebu**;
- Bydd budd-daliadau eraill, gan gynnwys **Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Lwfans Mamolaeth, Lwfans Anabledd Anafiadau Diwydiannol** a **Budd-daliadau Profedigaeth** yn aros fel y maent ar hyd o bryd.

## Swm

Telir **aelwydydd yn hytrach nag unigolion** a bydd y swm a delir yn dibynnu ar incwm ac amgylchiadau pawb ar yr aelwyd. Bydd **lwfans sylfaenol** ar gael a chyfraddau gwahanol i bobl sengl a chyplau, a bydd cyfraddau is i bobl ifanc. Yna, bydd symiau ychwanegol ar gael ar gyfer **anabledd**, cyfrifoldebau **gofalu**, costau **tai** a **phlant**.

Bydd y swm ar gyfer anabledd yn adlewyrchu dwy elfen y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a delir yn ystod prif gyfnod y budd-dal. Bydd y swm ychwanegol ar gyfer plant a fydd yn rhan o'r Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu'n ogystal â'r Budd-dal Plant, yn hytrach nag yn ei le.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fydd y **Lwfans Gofalwr** yn cael ei gynnwys yn y Credyd Cynhwysol, ond y bydd elfen ychwanegol yn y Credyd Cynhwysol i gydnabod gofalwyr, tebyg i'r premiwm gofalwyr sy'n daladwy ar hyn o bryd fel rhan o fudd-daliadau cysylltiedig ag incwm.[5]

---

[2] Cynllun Llywodraeth y DU yw'r Gronfa Gymdeithasol, i helpu pobl sydd ar incwm isel ac sy'n cael trafferth talu treuliau.
[3] ***Credyd Cynhwysol: lles sy'n gweithio***, Cm 7957, 11 Tachwedd 2010, t45
[4] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011) ***Social Fund localisation***, t3
[5] **HC Deb, 13 Gorffennaf 2011**

**Ffigur 1: Credyd Cynhwysol a budd-daliadau presennol**

**Budd-daliadau presennol**

- Credyd Treth Plant
- Ni fydd y Lwfans Gofalwr yn rhan o'r Credyd Cynhwysol
- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Llog Morgais (SMI)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn seiliedig ar incwm)
- Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm)
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Treth Gwaith

→


**Lwfans Credyd Cynhwysol**

- Plant
- Gofalu Ansicrwydd ynghylch yr hyn gaiff ei gynnwys yn yr adran hon
- Tai
- Anabledd / salwch
- Lwfans sylfaenol

## Enillion

I sicrhau bod rhai grwpiau'n cael eu hannog i weithio am ychydig oriau'r wythnos o leiaf, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu **diystyru enillion**[6] wrth bennu Credyd Cynhwysol ar sail anghenion person. Er enghraifft, os oes gan gwpl plant, bydd mwy o'u henillion nhw'n cael ei ddiystyru na chwpl heb blant. Caiff hyn, ynghyd â chyfradd y gostyngiad o 65 y cant yn y Credyd Cynhwysol, ei ddangos yn ffigur 2.

**Ffigur 2: Credyd Cynhwysol i riant unigol sydd â dau o blant (dim costau gofal plant)**




**Ffynhonnell**: *Credyd Cynhwysol: lles sy'n gweithio,* Cm 7957, 11 Tachwedd 2010, t15

Bydd yr uchafswm y gellir ei ddisystyru'n amrywio ar gyfer pob grŵp, a bydd yn gostwng i gyfateb i **swm y cymorth a geir am gostau tai a hanner y swm hwn eto.** Pennir isafswm y gellir ei ddiystyru, ac ni all yr enillion a ddiystyrir fod yn is na hyn.

## Uchafswm

Fel y cyhoeddwyd yn yr Adolygiad o Wariant, pennir **uchafswm** ar gyfer swm y budd-daliadau a delir i unrhyw aelwyd. Bydd yr uchafswm yn seiliedig ar enillion canolrifol (ar ôl didynnu

[6] Enillion a **ddiystyrir** yw'r swm y gall person ei ennill cyn dechrau tynnu budd-daliadau'n ôl.

treth ac Yswiriant Gwladol) teulu mewn gwaith. Disgwylir mai **£26,000 i bob aelwyd** fydd yr uchafswm.

## Amodau a chosbau ariannol

Bydd rhagor o amodau ynghlwm wrth Gredyd Cynhwysol, a disgwylir rhagor gan y rhai sy'n ei hawlio. Bydd pawb sy'n ei hawlio'n llofnodi '**Ymrwymiad Hawlio'**. Os byddant yn ddi-waith, neu mewn gwaith ond yn ennill llai na'r trothwy, byddant yn cael eu rhoi yn un o'r pedwar grŵp amodau a ganlyn:

- **Amodau llawn** – ceiswyr gwaith;
- **Paratoi am waith** – Pobl ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n golygu bod eu gallu i weithio'n gyfyngedig ar hyd o bryd;
- **Cadw mewn cysylltiad â'r farchnad lafur** – rhiant unigol neu brif ofalwr sydd â phlentyn rhwng blwydd a phump oed. Gall cyplau sydd â phlant enwebu un ohonynt i fod yn brif ofalwyr; a
- **Dim amodau** – Pobl sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n eu hatal rhag gweithio, gofalwyr, rhieni unigol neu brif ofalwyr sydd â phlentyn dan flwydd oed.

Bydd y **cosbau ariannol** am beidio â chydymffurfio â'r ymrwymiadau ariannol yn fwy llym na'r rheini a ddefnyddir yn y system bresennol. Hefyd, defnyddir lleoliadau **Gweithgareddau Gwaith Gorfodol** ar gyfer Ceiswyr Gwaith, sef lleoliadau gwaith llawn amser am hyd at bedair wythnos.

## Amserlen ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol

Bwriad Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yw i bobl ddechrau hawlio'r Credyd Cynhwysol o fis Hydref 2013 ymlaen ac amcangyfrifir y bydd yn cynnwys **19 miliwn o geisiadau unigol**, **ac 8 miliwn o aelwydydd**. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys amserlen dros dro i gwblhau'r broses o drosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol erbyn mis Hydref 2017:

**Rhwng mis Hydref 2013 a mis Ebrill 2014**

Caiff pob cais newydd am gymorth i'r di-waith eu trin fel cais am Gredyd Cynhwysol. Ni fydd ceisiadau am Lwfans Ceisio Gwaith yn cael eu derbyn, na Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm na Budd-dal Tai. Os bydd pobl sy'n derbyn budd-daliadau i'r di-waith yn dechrau gweithio, byddant yn cael eu cynnwys yn y system Credyd Cynhwysol os byddant yn gymwys.

**Ebrill 2014**

Ni fydd modd gwneud cais o'r newydd am Gredydau Treth.

**Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Hydref 2017**

Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn dechrau gweithio drwy'r achosion cyfredol.[7]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gredyd cynhwysol, cysylltwch â **Hannah Johnson** (**Hannah.Johnson@Wales.gov.uk**), yn y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld rhestr lawn o **hysbysiadau hwylus** yma.

[7] *Credyd Cynhwysol: lles sy'n gweithio*, Cm 7957, 11 Tachwedd 2010 para 21, t37